# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 20 Hydref 2021

Amser y cyfarfod: 13.30

## 27(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A–D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddull electronig.

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 3 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd: Diweddariad ar y Metro

(45 munud)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 4 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

(20 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 5 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**I'w ateb gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd:**

**Samuel Kurtz (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**

Pa effaith y bydd adolygiad o ffyrdd Llywodraeth Cymru yn ei chael ar welliannau sydd eisoes ar y gweill ar yr A40: ffordd osgoi Llanddewi Felffre i Redstone Cross?

**Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru):** Sut mae'r Llywodraeth yn mynd i'r afael â phryderon a morâl staff o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn dilyn cyhoeddi adroddiad beirniadol gan Goleg Brenhinol y Meddygon??

## 6 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 7 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod - Bil perchnogaeth cyflogai

(30 munud)

**NDM7722 Huw Irranca-Davies (Ogwr)**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil perchnogaeth gan weithwyr ar hyrwyddo pryniant a pherchnogaeth gan weithwyr.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:

a) deddfu ar gyfer cyfraith Marcora i Gymru i ddarparu'r fframwaith cyfreithiol, y cymorth ariannol a'r cyngor ar gyfer pryniant gan weithwyr;

b) rhoi dyletswydd statudol ar waith i ddyblu maint yr economi gydweithredol erbyn 2026 ac i fynd ati i hyrwyddo perchnogaeth a phryniant gan weithwyr;

c) rhoi cymorth a chyngor ariannol i weithwyr brynu busnes cyfan neu ran o fusnes sy'n wynebu cael ei gau i lawr neu ei leihau mewn maint ac i sefydlu cwmni cydweithredol i weithwyr;

d) sicrhau bod pob cwmni yng Nghymru sy'n cael arian cyhoeddus neu sy'n rhan o'r bartneriaeth gymdeithasol a chadwyni caffael moesegol yn cytuno i egwyddorion pryniant a pherchnogaeth gan weithwyr.

**Cefnogwyr**

Joyce Watson

Luke Fletcher

Sarah Murphy

Vikki Howells

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Recriwtio athrawon

(60 munud)

**NDM7811** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod gwaith caled ac ymroddiad athrawon a staff ysgolion ledled Cymru drwy gydol pandemig COVID-19.

2. Yn cydnabod bod athrawon yng Nghymru yn parhau i wynebu pwysau digynsail wrth i ni symud allan o'r pandemig a gweithredu cwricwlwm newydd.

3. Yn credu bod y ffaith bod nifer yr athrawon yng Nghymru yn disgyn yn cael effaith andwyol ar allu dysgwyr i oresgyn effaith andwyol y pandemig ar eu haddysg.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun ar frys i hybu recriwtio athrawon, sy'n cynnwys:

a) gosod targedau i ddarparu 5,000 o athrawon ledled Cymru yn ystod y pum mlynedd nesaf;

b) ad-dalu ffioedd dysgu i'r rhai sy'n mynd ymlaen i weithio fel athrawon am o leiaf bum mlynedd yn ysgolion Cymru;

c) sefydlu gwasanaeth cynghori ar addysg i Gymru i wella mynediad i gyfleoedd cyflogaeth a sefydlu mwy o lwybrau i'r proffesiwn addysgu;

d) gwarantu o leiaf flwyddyn o gyflogaeth mewn ysgol neu goleg yng Nghymru i bob athro sydd newydd gymhwyso.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 [Lesley Griffiths (Wrecsam)]

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

2. Yn mynegi ei diolchgarwch i'r gweithlu addysg cyfan am flaenoriaethu lles dysgwyr ac am ei ymrwymiad i weithredu'r cwricwlwm newydd er gwaethaf pwysau digynsail y pandemig.

3. Yn credu bod lles y gweithlu addysg o'r pwys mwyaf.

4. Yn cydnabod bod dysgu proffesiynol yn hanfodol er mwyn sicrhau gweithlu brwd o ansawdd.

5. Yn condemnio penderfyniad Llywodraeth San Steffan i rewi cyflogau'r sector cyhoeddus, ac effaith hynny ar athrawon ar adeg o bwysau digynsail ar y gweithlu.

6. Yn croesawu:

a) y cynnydd o 40 y cant yn y ceisiadau ar gyfer cyrsiau athrawon y llynedd.

b) y cynnydd o 15.9 y cant yng nghyflogau athrawon newydd yng Nghymru ers 2019, a'r cynnydd o 1.75 y cant y gwnaeth Llywodraeth Cymru helpu i'w sicrhau yng nghyflog pob athro eleni er gwaethaf y rhewi ar gyflogau'r sector cyhoeddus.

c) y ffaith bod cyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol hon wedi helpu i baru dros 400 o athrawon sydd newydd gymhwyso ag ysgolion.

d) y ffaith bod ffocws Cymru ar ddysgu proffesiynol ymhlith athrawon wedi'i ddisgrifio fel rhywbeth eithriadol o gymharu â llawer o awdurdodaethau eraill OECD, ac yn darparu sylfaen gadarn i wella dysgu proffesiynol mewn ysgolion.

e) y ffaith bod Cymru yn arwain y ffordd â chanllawiau fframwaith statudol ar gyfer ysgol gyfan, sydd wedi'u dylunio i gefnogi lles staff yn ogystal â dysgwyr.

[Safbwyntiau Polisi Addysg OECD - Astudiaeth o Ddysgu Proffesiynol i Athrawon: Adroddiad Diagnostig i Gymru] (Saesneg yn unig)

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

Gwelliant 2 [Sian Gwenllian (Arfon)]

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn credu bod nifer fawr o ffactorau'n dylanwadu ar y ffaith bod nifer yr athrawon yn gostwng, gan gynnwys llwyth gwaith, biwrocratiaeth ddiangen, materion staffio a phersonél, prosesau arolygu, yn ogystal â materion sy'n ymwneud â chyllid a chyllidebu;

Yn credu ymhellach fod yn rhaid mynd i'r afael â materion recriwtio gan ddefnyddio dull gweithredu aml-elfen, gan ganolbwyntio ar werthfawrogi'r proffesiwn a chreu gwell amodau gwaith a chyfleoedd.

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7810** Samuel Kurtz (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)

Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru: datblygu pobl ifanc gydwybodol yng nghefn gwlad Cymru

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 2 Tachwedd 2021

# Oral Questions tabled on 13/10/2021 for answer on 20/10/2021

The Presiding Officer will call party spokespeople to ask questions without notice after Question 2.

## MINISTER FOR SOCIAL JUSTICE

**Ken Skates** *Clwyd South*

1 OQ57034 **(e)**

What assessment has the Minister made of the impact that the £20-a-week cut to universal credit will have on Welsh communities?

**Natasha Asghar** *South Wales East*

2 OQ57042 **(e)**

What action is the Welsh Government taking to encourage diversity in employment in the public sector?

**Llyr Gruffydd** *North Wales*

3 OQ57061 **(w)**

Will the Minister make a statement on community banking?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

4 OQ57059 **(w)**

Will the Minister make a statement on the provision of sexual assault referral centres?

**Russell George** *Montgomeryshire*

5 OQ57038 **(e)**

How is the Welsh Government supporting community banking services?

**Buffy Williams** *Rhondda*

6 OQ57056 **(e)**

Will the Minister provide an update on the discretionary assistance fund?

**Luke Fletcher** *South Wales West*

7 OQ57060 **(e)**

What discussions has the Welsh Government had with the UK Government regarding the support fund announced for vulnerable households over the winter?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

8

## OQ57070 **(e)**

What action is the Welsh Government taking to tackle hate crime in south-east Wales?

**Jayne Bryant** *Newport West*

9

## OQ57062 **(e)**

How is the Welsh Government protecting residents from fuel poverty this winter?

**Jack Sargeant** *Alyn and Deeside*

10

## OQ57044 **(e)**

What is the Welsh Government doing to raise awareness of how men can individually and collectively take responsibility for ending male violence towards women?

**Paul Davies** *Preseli Pembrokeshire*

11

## OQ57032 **(e)**

What is the Welsh Government doing to support the voluntary sector in Pembrokeshire?

**Adam Price** *Carmarthen East and Dinefwr*

12

## OQ57050 **(e)**

Will the Minister make a statement on the progress of digital inclusion in Carmarthen East and Dinefwr?